

Prifysgol Bangor University

RHAN TRI

**DOGFENNAETH AR GYFER AILDDILYSU CYNLLUN ASTUDIAETH I'W GYFLWYNO I BANEL
MEWNOL O ASESWYR AC ARBENIGWR PWNC ALLANOL**

TEITL Y CYNLLUN: Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol

TEITL Y CYMHWYSTER: BA

ADRAN A - CYNNWYS ACADEMAIDD

Rhowch fanylion, mewn adrannau â phenawdau ar wahân am y canlynol: *(Gellir rhoi ynghlwm ddogfennaeth sydd ar gael eisoes e.e. llawlyfrau, blwyddlyfrau, dogfennaeth ddilysu wreiddiol etc.)*

1. Dogfen Hunan Werthuso *(fel a gynigiwyd ar gyfer yr Archwiliad Ansawdd Mewnol)*
2. Manylion Rhaglen
3. Cynnwys a Chynllun y Cwricwlwm
4. Strategaeth ar gyfer Addysgu a Dysgu
5. Asesu
6. Goblygiadau Adnoddau

Hefyd a wnewch chi gynnwys gopïau o'r dogfennau a ganlyn os gwelwch yn dda:

- (a) QA1 Cynlluniau Datblygu ac Adolygu Blynyddol
- (b) Adroddiadau Arholwyr Allanol o'r 3 blynedd academiaidd flaenorol
- (c) Yr Adroddiadau Archwilio diweddaraf a'r dilyniant

ADRAN B - PWYNTIAU ERAILL

Ychwanegwch yma, os mynnwch, unrhyw faterion pellach y dylid tynnu sylw'r Panel(i) atynt.

MANYLION RHAGLEN

TEITL Y CYNLLUN: Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol

TEITL Y CYMHWYSTER: BA

Mae'r radd cyfrwng Cymraeg yn radd sy'n cyfuno astudiaeth o Gymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol. Rhestrir isod y manylion yn ôl y ddisgyblaeth:

Cymdeithaseg - Un o haeriadau cymdeithasegwyr yw na ellir deall ymddygiad cymdeithasol heb ei leoli tu mewn i'r cyd-destun cymdeithasol priodol. Mae hynny'n cynnwys deall sut mae pobl yn ymddwyn fel aelodau o grwpiau cymdeithasol, a sut maent yn creu rheolau a chyfundrefnau o wahanol fathau er mwyn rheoli ymddygiad cymdeithasol. Byddwn yn edrych yn fanylach ar hyn ar lefel-fechan, ar gysylltiadau clos pobl a'i gilydd (e.e. yn y teulu), ac ar lefel-eang mwy amheronol, pan mae ymddygiad nifer fawr o bobl yn cael ei drefnu gan gyfundrefn gymdeithasol (e.e. y system addysg) – sonnir am y gwahaniaethau hyn fel cymdeithaseg 'micro' a 'macro'. Byddwn yn ceisio dangos perthynas y naill agwedd a'r llall gyda'i gilydd, a sut mae newid yn digwydd dros gyfnodau amser.

Ymhlith y testunau y byddwn yn eu hystyried fydd:

- tarddiad amrywiaethau ac anghyfartaleddau cymdeithasol, gan gynnwys gwahaniaethau ar sail gender, 'hil', a dosbarth cymdeithasol
- y cysylltiad rhwng gwahanol agweddau ar gyfundrefnau cymdeithasol fel y gwleidyddol, diwylliannol ac economaidd
- gwahanol ffurfiau ar sefydliadau cymdeithasol fel y teulu, addysg, a gwaith
- sut mae syniadau a gwerthoedd yn pennu ymddygiad cymdeithasol

Gan fod cymdeithaseg yn berthnasol i bob agwedd ar fywyd cymdeithasol, mae'r posibiladau am destunau trafod yn ddibendraw. Gellir astudio unrhyw agwedd ar fywyd cymdeithasol yn y maes hwn. Ym Mangor, yr ydym yn canolbwyntio ar nifer o feysydd, gan ddibynnu ar ddi-ddordebau ymchwil y staff. Ar hyn o bryd, mae ein diddordebau yn cynnwys theori gymdeithasegol glasurrol, theori Marcisiaeth, dulliau ymchwil, methodoleg gymdeithasol, troseddeg, cyfiawnder troseddol, gender, trais a throsedd, a chynllunio ieithyddol. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael yn y Gymraeg, ond gall myfyrwyr hefyd gymryd modiwlau Cymdeithaseg trwy gyfrwng y Saesneg yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas os y dymunent.

Polisi Cymdeithasol - Mae trafodaeth Polisi Cymdeithasol yw'r broses o gyflenwi anghenion sylfaenol dynolryw, yr adnoddau sydd eu hangen i leddfuo tlodi, sicrhau lloches, hybu iechyd, ac osgoi rhagfarn. Mae angen dealltwriaeth o'r broses creu polisi sydd wrth wraidd polisi cymdeithasol, a'r modd y mae hon wedi ei lleoli o fewn cyd-destunau ideolegol a theoretaidd penodol. Mae angen hefyd gallu deall a dadansoddi y fframwaith trefniadol a chyllidol sy'n gyfrifol am ddarparu lles ar gyfer unigolion. Bydd y myfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus yn abl i ymdrin ag ystod eang o faterion lles cyfoes, a bydd ganddynt y sgiliau personol angenrheidiol i weithio'n effeithiol ac yn annibynnol mewn amryfal feysydd gwaith. Ar hyn o bryd, mae ein diddordebau yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol personol, plant a pholisi cymdeithasol, polisi iechyd, a phroblemau cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael yn y Gymraeg, ond gall myfyrwyr hefyd gymryd modiwlau Polisi Cymdeithasol neu Iechyd a Gofal trwy gyfrwng y Saesneg yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas os y dymunent.

Gradd fodiwlaid llawn-amser yw'r radd hon, i'w chwblhau mewn tair blynedd.

2. Strwythur y Radd

Lefel Un: Bydd myfyrwyr ar raddau Anrhydedd Sengl a Chydanheddedd yn gwneud 60 credyd o fodiwlau gorfodol. Byddant yn dewis 60 credyd arall, a fydd yn y pwnc gradd Cydanrhydedd arall.

Lefel Dau: Bydd myfyrwyr ar raddau Anrhydedd Sengl yn gwneud 80 credyd o fodiwlau gorfodol, a 40 o rai dewisol. Bydd myfyrwyr Cydanrhydedd yn gwneud 40 o fodiwlau gorfodol ac 20 o rai dewisol, gan ddewis eu 60 credyd arall o'r pwnc Cydanrhydedd arall.

Lefel Tri: Bydd myfyrwyr ar raddau Anrhydedd Sengl yn gwneud 80 credyd o fodiwlau gorfodol, a 40 o rai dewisol. Bydd myfyrwyr Cydanrhydedd yn gwneud 40 o fodiwlau gorfodol ac 20 o rai dewisol, gan ddewis eu 60 credyd arall o'r pwnc Cydanrhydedd arall.

CYNNWYS A CHYNLLUN Y CWRICWLWM

Bydd disgwyl i fyfyrwyr fod wedi cwblhau'n foddhaol y modylau Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol Blwyddyn Gyntaf cyn symud ymlaen i'r rhaglen isod. Yn achos myfyrwyr ar y cyd, bydd disgwyl iddynt fod wedi cwblhau'r elfen briodol o'r radd ar Lefel 1, sef y modylau gorfodol i gyd:

Lefel 4 (Blwyddyn 1)

Ar y lefel hon, mae disgwyl i'r myfyrwyr gwblhau lleiafswm o 60 o gredydau

Cod y Modiwl	Teitl y Modiwl	Credydau	Gorfodol/ Dewisol	Semester
SCU1001	Sgiliau Ymchwil	20	Gorfodol	1
SCP1002	Cyflwyniad i Bolisi Cymdeithasol	20	Gorfodol	1 a 2
SCS1004	Cymdeithaseg a'r Byd Cyfoes	20	Gorfodol	2
SCY1004	Cyflwyniad i Drosedd a Chyfiawnder	20	Dewisol	1 a 2
SCY1003	Sgiliau Craidd yr Heddlu	20	Dewisol	2
SCS1006	Cyflwyniad i Gynllunio Ieithyddol	20	Dewisol	1

Lefel 5 (Blwyddyn 2)

Ar y lefel hon, mae disgwyl i fyfyrwyr gwblhau 120 o gredydau.

Cod	Teitl y Modiwl	Credydau	Gorfodol/ Dewisol	Semester
SCS2007	Theori Gymdeithasegol	20	Gorfodol	2
SCU2001	Dulliau Ymchwil	20	Gorfodol	1
SCP2001	Gwasanaethau Cymdeithasol Personol	20	Gorfodol	1 a 2
SCY2004	Lleoliad Heddlu Gogledd Cymru	20	Dewisol	1
SCY2003	Trosedd a Chyfiawnder	20	Dewisol	1
SCY2006	Gender, Trais a Throsedd	20	Dewisol	2
SCS2010	Cynllunio Ieithyddol yn Ewrop	20	Dewisol	2
SCU2010	Traethawd Hir	20	Gorfodol	1 a 2

Lefel 6 (Blwyddyn 3)

Ar y lefel hon, mae disgwyl i fyfyrwyr gwblhau 120 o gredydau.

Cod	Teitl y Modiwl	Credydau	Gorfodol/ Dewisol	Semester
SCS3009	Theori Gymdeithasegol Glasurol	20	Gorfodol	2
SCU3001	Methodoleg Ymchwil	20	Gorfodol	1
SCP3008	Plant a Pholisi Cymdeithasol	20	Gorfodol	2
SCS3005	Problemau Cymdeithasol Cymru	20	Dewisol	1
SCY3004	Yr Heddlu a Chymdeithas Gyfoes	20	Dewisol	2
SCS3010	Hawliau Ieithyddol	20	Dewisol	1
SCS3011	Cymuned, Iaith a Diwylliant	20	Dewisol	2
SCU3010	Traethawd Hir	20	Gorfodol	1 a 2

3. Addysgu a Dysgu

3.1 Cynlluniwyd y radd hon i alluogi myfyrwyr i ddatblygu'n gynyddol eu sgiliau a gwybodaeth, i gwrdd â'r meincnodau a nodir ar gyfer Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol i fyfyrwyr gradd sengl a gradd ar y cyd. I'r diben hwn, bydd yn ymdrin â'r meysydd canlynol o **ddealltwriaeth a gwybodaeth**:

Cymdeithaseg (para1.5, Sociology: QAA)

- cysyniadau allweddol a dulliau theoretaidd a ddatblygwyd ac sydd yn datblygu mewn Cymdeithaseg;
- ymwybyddiaeth o gyd-destun cymdeithasol, natur prosesau cymdeithasol, ac o amrywiaeth cymdeithasol ac anghyfartaleddau;
- dealltwriaeth o werth dadansoddiad cymharol;
- dealltwriaeth o'r berthynas rhwng unigolion, grwpiau a sefydliadau cymdeithasol;
- dealltwriaeth o rôl diwylliant mewn bywyd cymdeithasol;
- dealltwriaeth o'r prosesau cymdeithasol sydd wrth wraidd newid cymdeithasol;

- dealltwriaeth o natur a gwahanol strategaethau ymchwil a dulliau ymchwil, a ddefnyddir gasglu gwybodaeth gymdeithasol;
- dealltwriaeth o'r berthynas rhwng dadleuon cymdeithasegol a thystiolaeth;
- ymwybyddiaeth o gymeriad penodol Cymdeithaseg mewn perthynas â ffurfiau eraill o ddealltwriaeth, fel disgyblaethau eraill a 'synnwyr cyffredin' bob dydd.

Polisi Cymdeithasol (para 3.2, Social Policy: QAA)

- Gwybodaeth o wreiddiau a datblygiad sefydliadau lles y DU a pheth eglurhad theoretaidd o'r hanes
- Gwybodaeth o weithgareddau a threfniant cyfoes y prif sefydliadau yn system lles y DU, gan gynnwys nawdd cymdeithasol, iechyd a gofal, a thai
- Gwybodaeth am fframwaith a gweithrediad y broses bolisi
- Gwybodaeth am weithrediad y sectorau anffurfiol, gwirfoddol a phreifat o safbwynt economïau lles cymysg
- Gwybodaeth am anghenion dynol a chymdeithasol yn y DU, a'r polisiau i gwrdd â nhw
- Gwybodaeth am ddimensiwn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar Bolisi Cymdeithasol
- Gwybodaeth am y prif ffynonellau data ynghylch lles cymdeithasol, a dealltwriaeth feirniadol o'r prif ddulliau ymchwil a ddefnyddir i gasglu a dadansoddi data
- Dealltwriaeth o ddulliau amlddisgyblaethol i ymdrin â materion a pholisiau polisi cymdeithasol
- Dealltwriaeth o brif gysyniadau a theorïau lles, yn cynnwys y wladwriaeth a'r broses gwneud polisi a'i weithredu
- Dealltwriaeth o economi gwleidyddol lles, gwerthoedd ac egwyddorion
- Dealltwriaeth o'r prif gysyniadau a ddefnyddir i ddeall angen dynol a lles gymdeithasol: e.e. tlodi, amrywiaeth cymdeithasol, eithrio cymdeithasol, anghyfartaledd.
- Dealltwriaeth o broblemau cymdeithasol cyfoes
- Dealltwriaeth o werth a chyfyngiadau y dull cymharol, yn hanesyddol a thraws-gwledydd
- Ymdriniaeth â meysydd:
 - Gofal plant
 - Polisi Cymdeithasol a phlant
 - Trosedd a pholisi cyfiawnder troseddol
 - Polisi cymdeithasol cymharol
 - Polisi cymdeithasol Ewropeaidd
 - Gender a pholisi cymdeithasol
 - Gofal Cymunedol
 - Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol

3.2 Bydd bob modiwl yn cael ei dysgu gyda chyfuniad o ddulliau: darlithoedd, seminarau, tiwtorialau, ynghyd â gwaith grŵp, gwaith maes, a gwaith ymarferol pan fo'n briodol. Ceir modiwl lleoliadau efo Heddlu Gogledd Cymru fel rhan o'r rhaglen (gan ddilyn trefn Cod Ymarfer y Brifysgol ar ddysgu drwy leoliad), a dewisir myfyrwyr ar sail gystadleuol drwy'r fodiwl SCY1003 Sgiliau Craidd yr Heddlu ym Mlwyddyn 1. Bydd y myfyrwyr gradd sengl hefyd yn dysgu astudio yn annibynnol gyda'r modiwl Traethawd Hir.

4. Asesiad

4.1 Bydd yr asesiad dros gyfnod y cynllun gradd yn ei gyfanrwydd yn gwerthuso cynnydd y myfyrwyr i gwrdd â'r deilliannau a nodwyd. Golyga hyn ddefnyddio cyfres o ddulliau asesu a fydd yn amrywio yn ôl nodau'r modiwlau dan sylw. Defnyddir cyfuniad o arholiadau, gwaith cwrs, cyflwyniadau llafar, ymchwil annibynnol, ac asesiad o sgiliau astudiaeth ac ymchwil.

4.2 Mesurir y deilliannau dysgu gyda chyfuniad briodol o arholiadau, gwaith cwrs, asesiad o berfformiad seminar, lleoliadau a chyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

4.3 Bydd yr aseiniadau a ddyfeisir yn cael eu trafod a'u cytuno gan y tîm dysgu gorfodol.

4.4 Bydd sampl dda o'r aseiniadau yn cael eu marcio ddwy waith [o leiaf 10 y cant, a phob un sy'n methu, bob un sy'n derbyn marc Dosbarth I, neu sy'n ffiniol rhwng dau ddsbarth gradd], a bydd y gwaith yn cael ei gyflwyno i arholwr allanol.

4.5 Bydd cydbwysedd yr asesiadau yn dibynnu ar ddewis myfyrwyr unigol o fodylau ar lefel Dau a Thri. Rhestrir y dulliau asesu ym mhob disgrifiad modiwl unigol a amgaeir yma.

5. Staffio a Chefnogaeth i Fyfrwyr

Y staff craidd ar gyfer y radd hon yw: Dr Delyth Morris, Uwch Ddarlithydd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, Malcolm John, Darlithydd mewn Polisi Cymdeithasol (0.6 CALI); Gwenda Rhian Jones, Darlithydd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, a Dr Rhian Hodges, Aelod Cyswllt Dysgu mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol. Dr Delyth Morris yw'r Gyfarwyddwraig Astudiaethau.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r staff, dan gadeiryddiaeth Mr Malcolm John, i fonitro'r ddarpariaeth a'i gweinyddiaeth, ac i drafod materion cynnydd myfyrwyr a materion cysylltiedig. Mae Bwrdd Rhaglen yr Ysgol yn cydlynu'r gwahanol raglenni gradd tu mewn i'r Ysgol, tra bod Pwyllgor Ansawdd yr Ysgol, y Bwrdd Astudiaethau, a'r Arholwr Allanol hefyd yn ymwneud â chynnal a chadarnhau ansawdd dysgu.

Mae gan yr Ysgol system o gefnogaeth myfyrwyr, gyda phob un yn derbyn tiwtor personol pan y dônt i mewn i'r Ysgol. Hefyd mae yn yr Ysgol gryn brofiad o roddi cefnogaeth i fyfyrwyr aeddfed a myfyrwyr ag anableddau.

Gofynnir am farn y myfyrwyr ar eu modiwlau a'r cynllun gradd drwy ddefnyddio holiaduron a dulliau cyffelyb.

6. Goblygiadau Adnoddau

Nid oes goblygiadau adnoddau tu draw i'r hyn sydd eisoes gennym.

7. Cyswllt â Pholisïau a Strategaethau Ehangach y Brifysgol

Mae'r rhaglen radd Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol yn ymgysylltu â'r polisïau a strategaethau canlynol:

- Ehangu Mynediad
- Polisi Iaith y Brifysgol
- Cyfle Cyfartal
- Cyflogadwyedd
- Moeseg